

RICHARD CHAPPELL DANCE

Galwad am Goreograffydd Comisiwn

Y RHAGLEN *SUPPORTING ACTS*

Richard Chappell Dance

Dyddiad cau ar gyfer ymgeisio: 6pm, 23 Rhagfyr 2021

Cyfweliadau gydag ymgeiswyr ar y rhestr fer: 6 neu 7 Ionawr 2022

Y ffi: £2,500 + cymorth ychwanegol

Gan ddwyn ysbrydoliaeth o berfformiadau ategol y diwydiant cerddoriaeth, rhwng 2021 a 2022 bydd Richard Chappell Dance CIC yn cynorthwyo coreograffydd Cymraeg/a leolir yng Nghymru, ac sydd yng nghamau cynnar ei yrfa, i greu gwaith ar gyfer perfformiad ochr yn ochr â *repertoire* Richard Chappell Dance. Mae *Supporting Acts* yn ailddehongli'r modd y gall cwmnïau greu partneriaeth symbiotig a hael gyda chymunedau ac artistiaid sydd yng nghamau cynnar eu gyrfa.

Mae Richard Chappell Dance yn chwilio am geisiadau gan goreograffwyr Cymraeg neu rai a leolir yng Nghymru. Dylent fod yng nghamau cynnar eu gyrfa a dylent fod yn barod i ddechrau ymchwilio a datblygu creadigaeth newydd trwy gyfrwng *Supporting Acts*. Lluniwyd y rhaglen er mwyn iddi allu rhoi hwb i artistiaid trwy gyfrwng pecyn cymorth cynhwysfawr, ac mae Richard Chappell Dance yn awyddus i gydweithio gyda chrëwyr a chanddynt uchelgeisiau hirdymor ar gyfer datblygu eu lleisiau a'u harferion coreograffig. Ariannwyd *Supporting Acts* gan Gyngor Celfyddydau Cymru a The Linbury Trust gyda chefnogaeth Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru, Dance Blast, Theatr Clwyd, CULTVR a Chanolfan Gelf Taliesin.

Pwy ydym yn eu recriwtio ar hyn o bryd?

Coreograffydd Cymraeg/a leolir yng Nghymru, ac sydd yng nghamau cynnar ei yrfa.

Sut y bydd y comisiwn yn gweithio?

Bydd y Coreograffydd yn cael ffi ar gyfer y comisiwn, a bydd arian yn cael ei ddyrannu ar gyfer talu i gydweithredwr dethol yn ystod y cyfnod creu. Gall y cydweithredwr hwn fod yn un o ddawnsywyr ensemble Richard Chappell Dance, neu'n gydweithredwr gwahanol o ddewis y coreograffydd. Bydd Richard Chappell Dance yn cynorthwyo'r coreograffydd comisiwn i sicrhau man preswyllo ar gyfer ei greadigaeth gydag un o'n partneriaid sy'n rhan o'r rhaglen *Supporting Acts*, gan gynnwys y gwaith mewn perfformiad.

Perfformiadau Fesul Rhanbarth

Bydd modd i'r coreograffydd comisiwn ddewis ym mha leoliad y bydd ei 'waith ar y gweill' yn cael ei gyflwyno, sef naill ai Dance Blast yn y Fenni neu Ganolfan Gelfyddydau Taliesin yn Abertawe. Yn y Fenni, bydd y gwaith yn cael ei rannu gyda chyfranogwyr gweithdai ac aelodau o'r gymuned leol sydd wedi mynychu gweithdai Richard Chappell Dance yn Dance Blast. Yn Abertawe, bydd y dasg o rannu'r gwaith yn agor perfformiad awyr agored Richard Chappell o *Silence Between Waves*, fel rhan o raglen Diwrnodau Dawns Canolfan Gelfyddydau Taliesin.

Manylion y Ffi

Bydd pob coreograffydd comisiwn yn cael ffi o £2500, sy'n cynnwys tâl gwyliau ar gyfraddau 'Hawl i Orffwys' Equity. Bydd Richard Chappell Dance yn dyrannu arian ychwanegol ar gyfer gwaith y coreograffydd er mwyn talu ffioedd un cydweithredwr y bydd modd i'r

coreograffydd weithio gydag ef yn ystod wythnos o ymarferion, ynghyd â ffi diwrnod perfformio, ochr yn ochr â mentora o fath arall gan staff RCD.

Pryd fydd y preswiliadau creu a'r perfformiadau'n cael eu cynnal?

Bydd y preswiliad creu yn cael ei gynnal yn Dance Blast yn y Fenni, neu mewn lleoliad arall yng Nghymru o ddewis y coreograffydd os oes ganddo bartneriaid penodol y dymuna weithio gyda nhw. Bydd dyddiadau'r preswiliad yn hyblyg, a byddant yn cael eu teilwra ar sail ymrwymadau presennol neu ddisgwyliedig y Coreograffydd.

Bydd yn ofynnol i'r coreograffydd gyflwyno'i waith mewn perfformiad a gynhelir naill ai yn Dance Blast neu yng Nghanolfan Gelfyddydau Taliesin. Wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen, bydd y coreograffydd yn gweithio ar y cyd â Richard Chappell Dance i benderynu pa leoliad fydd y lleoliad mwyaf addas.

Dyddiadau'r perfformiadau:

Dance Blast, Y Fenni: 15 Mai 2022

Canolfan Gelfyddydau Taliesin, Abertawe: Gorffennaf 2022, nid yw'r union wythnos wedi'i chadarnhau eto

Sut fath o gymorth fydd y Coreograffydd yn ei gael?

Bydd y Coreograffydd yn cael cymorth mentora gan Richard Chappell a staff eraill yng nghwmni Richard Chappell Dance mewn perthynas â rheoli'r prosiect, hunangynhyrchu a datblygu cynulleidfaoedd. Pe bai angen, efallai hefyd y bydd y coreograffydd yn cael cymorth mewn dramayddiaeth ar gyfer ei greadigaeth, a hynny ar gyfer un diwrnod o ymchwil a datblygu. Bwriedir i'r cymorth gael ei gynnig drwy gydol y prosiect, a bydd unrhyw gymorth dilynol yn

cael ei lunio ar sail myfyrdodau ac anghenion y coreograffydd ar ôl dyddiad y perfformiad.

A fyddwch yn talu costau mynediad?

Byddwn. Mae arian mynediad ar gael fel bo'r angen. Pan fyddwch yn anfon eich cais atom, rhowch wybod inni fod gennych anghenion mynediad yr hoffech inni fod yn ymwybodol ohonynt.

Ni fydd yr wybodaeth hon yn effeithio ar y broses ddethol, ond bydd yn cael ei defnyddio wrth inni rag-gynllunio'r prosiect, a hefyd byddwn yn ystyried yr wybodaeth yn ein dulliau o gyfathrebu gyda chi drwy gydol y broses ymgeisio, os bydd hynny'n berthnasol, er mwyn sicrhau y bydd y broses mor hygyrch a hwylus â phosibl ichi. Os bydd gennych gwestiynau penodol yn ymwneud â chostau ac anghenion mynediad, mae croeso ichi gysylltu ac yna gallwn dre-fnu sgwrs ynglŷn â'r mater.

Sut ydw i'n ymgeisio?

Llenwch y ffurflen cais Google erbyn 6yh ar y 23ydd o Ragfyr 2021. Os bydd angen y ffurflen cais arnoch fel Dogfen Word, e-bostiwch applications@richardchappelldance.co.uk ac anfonwn ni atoch chi trwy e-bost. Hefyd, hoffem weld enghreifftiau o goreograffi yr aethoch i'r afael ag ef yn y gorffennol. Os nad oes gennych fideos o'ch coreograffi, gallwch ddefnyddio astudiaethau a ffilmwyd mewn stiwdio ddawns neu enghreifftiau o waith arall y gwnaethoch gyfrannu at ei goreograffi.

Rydym yn danbaid dros ein rhaglenni ar gyfer artistiaid sy'n creu gwell tegwch trwy'r sector dawns, ac rydym yn ymwybodol o'r heriau sy'n wynebu artistiaid pan fyddant yn ymgeisio am waith i hwyluso'u harferion. Lluniwyd y broses ymgeisio hon mewn modd sy'n sicrhau na fydd hi'n rhy drafferthus i'r ymgeiswyr, a gall yr hyn a nodwch yn eich cais amrywio o ychydig frawddegau clir ac uni-

ongyrchol, i esboniad hirach. Gwyddom y gall cyfyngu ar nifer y geiriau arwain o dro i dro at gyfyngu ar onestrwydd yr artist wrth iddo ddisgrifio'i waith, a'i orfodi i dreulio mwy o amser na'r angen ar y cais. Hoffem glywed am eich gwaith a'ch anghenion mewn modd cwbl dryloyw, ac ni fydd hyd yr atebion a gynnigir ar gyfer y cwestiynau yn arwydd o gryfder y cais. Os hoffech gael yr wybodaeth hon mewn fformatau eraill, cofiwch gysylltu â ni.

Pe bai'n well gennych lunio eich cais ar ffurf fideo, anfonwch fideo hyd at 5 munud o hyd atom, a chofiwch gynnwys yr wybodaeth y gofynnir amdani uchod.

Â phwy y dylwn gysylltu os oes gennyf gwestiynau ynglŷn â'r prosiect neu'r cais?

Os oes gennych gwestiynau'n ymwneud â'r prosiect *Supporting Acts*, neu ymholiadau ynglŷn â'ch cais, cysylltwch â'r canlynol: saoirse@richardchappelldance.co.uk.

Mae Richard Chappell Dance yn croesawu ceisiadau gan y mwyafrif byd-eang yn ogystal â chan artistiaid sy'n byw gydag anabledd, niwrowahaniaeth neu anhawster dysgu. Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan artistiaid sy'n dod o gefndiroedd dosbarth gweithiol, neu rai sydd wedi mynd trwy galedi economaidd yn ddiweddar neu yn y gorffennol.



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

THE
LINBURY
TRUST